Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Babanod Porth
# Mary Street
# Porth
# Rhondda Cynon Taf
# CF39 9UH

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Babanod Porth

Mae Ysgol Babanod Porth yn awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf.  Ar hyn o bryd, mae 66 o ddisgyblion tair i saith oed ar y gofrestr, gan gynnwys 11 o ddisgyblion meithrin sy'n mynychu'n rhan-amser.  Ceir tri dosbarth oedrannau cymysg yn yr ysgol.

Mae rhyw 27% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19%.  Mae'r ysgol wedi nodi bod anghenion dysgu ychwanegol gan tua 24% o ddisgyblion.

Daw bron pob un o'r disgyblion o gefndir gwyn Prydeinig.  Nid yw unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.  Mae'r awdurdod lleol yn gofalu am ychydig iawn o ddisgyblion.

Ymgymerodd y pennaeth dros dro â'i swydd yn Ionawr 2017 oherwydd absenoldeb hirdymor y pennaeth. Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf o'r ysgol ym Mehefin 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/Schools/SchoolSearch?lang=en

## Crynodeb

Mae Ysgol Babanod Porth yn darparu amgylchedd dysgu hynod ofalgar lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn mwynhau'u dysgu. Mae oedolion yn gwrando ar farnau disgyblion ac yn rhoi ystyriaeth dda iddynt wrth gynllunio gweithgareddau a gwella'r ddarpariaeth. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar wella medrau llythrennedd disgyblion, yn enwedig eu hysgrifennu. Ceir addysgu o ansawdd da ym mhob dosbarth. Mae'r pennaeth dros dro wedi darparu arweinyddiaeth gref yn ystod cyfnod ansefydlog i'r ysgol. Caiff ei chefnogi'n dda gan bob un o'r staff, ac maent yn gweithio gyda'i gilydd fel tîm effeithiol sy'n canolbwyntio ar godi safonau a darparu lefelau lles uchel.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Datblygu defnydd disgyblion o fedrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A2 Cynllunio cyfleoedd gwell i ddisgyblion ddatblygu ystod lawn o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn systematig ar draws y cwricwlwm

A3 Gwneud yr amser pan fydd yr ysgol gyfan yn cyfarfod yn brofiad gwell a mwy ysgogol i ddisgyblion.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r adroddiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â datblygu medrau ysgrifennu disgyblion i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae medrau a gwybodaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion islaw'r lefel a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion gynnydd da o'u man cychwyn.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau siarad a gwrando yn dda. Yn y feithrinfa, maent yn siarad am beth maent yn ei wneud gyntaf a nesaf wrth chwilio am sêr tu allan. Ym Mlwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trafod eu gwaith yn hyderus ac yn disgrifio darnau o waith y maent yn falch ohonynt, gan roi rhesymau manwl ynghylch pam y gwnaethant ddewis y darn arbennig hwnnw. Siaradant mewn brawddegau estynedig gan ddefnyddio geirfa ddatblygedig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n ofalus ar oedolion a'i gilydd yn ystod gwersi. Maent yn mwynhau gwrando ar storïau a chlywed newyddion disgyblion eraill.

Yn gyffredinol, mae disgyblion iau yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu medrau darllen cynnar a dangosant ddiddordeb mewn llyfrau a storïau. Maent yn ymuno'n frwdfrydig ag amrywiaeth o ganeuon a rhigymau. Mae rhan fwyaf y disgyblion hŷn yn datblygu medrau darllen effeithiol. Darllenant gyda mwy a mwy o rugldr, gan roi ystyriaeth dda i atalnodi. Maent yn awyddus i ddarllen yr hyn maent wedi'i ysgrifennu i ymwelwyr ac yn cywiro'u hunain pan fyddant yn sylweddoli nad yw'r hyn maent wedi'i ddarllen yn gwneud synnwyr llwyr. Gwnânt ddefnydd da o'u gwybodaeth am ffoneg i ddatgodio geiriau newydd ac anghyfarwydd. Maent yn gwybod sut i ddod o hyd i wybodaeth mewn testunau ffeithiol gan ddefnyddio tudalen gynnwys a mynegai.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu'u medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Maent yn awyddus i ysgrifennu, ac mae llawer yn dewis gweithgareddau ysgrifennu yn eu hamser chwarae rhydd. Mae disgyblion yn y feithrinfa yn mwynhau gweithgareddau gwneud marciau a defnyddiant ystod o offer yn effeithiol, fel paent, sialc, tywod a phensiliau i ymarfer eu medrau ysgrifennu cynnar, gan ddangos rheolaeth gynyddol. Yn y dosbarth derbyn ac ym Mlwyddyn 1, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau ysgrifennu brawddegau'n annibynnol gyda rheolaeth dda ar bensil. Defnyddiant yr hyn maent wedi'i ddysgu drwy ddweud stori ar lafar i amrywio dechrau eu brawddegau er mwyn gwneud eu hysgrifennu'n fwy diddorol. Mae llawer o ddisgyblion ym Mlwyddyn 2 yn defnyddio ystod eang o eiriau disgrifiadol, ac maent yn anturus o ran eu dewis o eirfa yn aml. Yn gyffredinol, mae disgyblion mwy abl yn defnyddio atalnodi'n gywir ar draws eu gwaith. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae disgyblion yn cynhyrchu gwaith ysgrifennu estynedig o ansawdd da. Gwna llawer o ddisgyblion ymgais dda i sillafu geiriau newydd ac anghyfarwydd drwy gymhwyso'u gwybodaeth am ffoneg.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau mathemateg yn dda. Yn y feithrinfa, mae rhan fwyaf y disgyblion yn adrodd amrywiaeth o rigymau rhif ac yn cyfrif gwrthrychau i fyny at ddeg yn Gymraeg a Saesneg gyda mwy a mwy o hyder. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adeiladu'n dda iawn ar eu medrau rhif wrth iddynt symud drwy'r ysgol, ac mae ganddynt ddealltwriaeth gryf o berthnasoedd rhwng rhifau. Erbyn Blwyddyn 2, mae disgyblion yn defnyddio ystod o fedrau mesur a

medrau trin data yn effeithiol yn eu mathemateg. Mae dealltwriaeth dda gan y rhan fwyaf o ddisgyblion o iaith mathemateg ac maent yn defnyddio'u medrau llythrennedd yn dda i'w helpu i ddarllen a dehongli problemau geiriau. Er enghraifft, maent yn nodi siapiau gwahanol o ddarllen am eu priodweddau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau mathemateg yn effeithiol i ddatrys problemau. At ei gilydd, nid yw gallu disgyblion i gymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm wedi'i ddatblygu cystal.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau priodol mewn TGCh. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, gwnânt ddefnydd o ystod o adnoddau a chymwysiadau i gefnogi'u dysgu yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion yn chwilio am wybodaeth berthnasol am gymeriadau hanesyddol, fel Guto Ffowc, gan ddefnyddio chwilotwr y rhyngrwyd. Hefyd, maent yn cyfarwyddo dyfais raglenadwy i ganfod ei ffordd o amgylch grid yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau Cymraeg yn dda. Yn y feithrinfa, maent yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau sy'n dangos eu bod wedi deall. Maent yn cyfrif yn hyderus yn Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn gofyn ac yn ateb cwestiynau syml ac yn cynnal sgwrs fer. Defnyddiant y patrymau y maent wedi'u dysgu o amgylch yr ysgol yn hyderus, er enghraifft wrth gyflwyno negeseuon.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau, yn enwedig wrth ddatblygu'u medrau llythrennedd. Yn gyffredinol, mae disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn perfformio gystal â disgyblion eraill.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae safonau lles yn uchel. Mae'r holl ddisgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac maent yn hyderus pan fyddant yn yr amgylchedd ysgol. Maent yn teimlo'n ddiogel ac mae bron pob un ohonynt yn arddangos agwedd ofalgar tuag at ei gilydd.

Mae bron yr holl ddisgyblion yn dangos parch ac ystyriaeth i'w gilydd ac i'w hathrawon. Maent yn foesgar ac yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol. Maent yn hyderus y bydd oedolion yn gwrando ar eu barnau, ac ymfalchïant mewn gwella'u hamgylchedd ysgol drwy ofalu am yr ysgol goedwig a'r mannau awyr agored. Mae llawer o ddisgyblion yn awyddus i ymgymryd â chyfrifoldebau ac maent yn chwarae rhan lawn ym mywyd yr ysgol. Er enghraifft, bu cyngor yr ysgol ynghlwm â phrynu teganau ar gyfer amserau chwarae gwlyb.

Mae disgyblion yn deall buddion cadw'n heini a bwyta'n iach. Maent yn teimlo'n gyffrous ynglŷn â gweithgareddau corfforol ac yn mwynhau cymryd rhan mewn gwersi addysg gorfforol a gemau yn ystod amseroedd chwarae. Er enghraifft, dangosant frwdfrydedd wrth wneud symudiadau tân gwyllt araf a chyflym yn ystod gwers ddawns. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan weithgar mewn gweithgareddau clwb cymunedol fel dawnsio gwerin, chwaraeon, côr, tennis, coginio a gwaith elusen.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus am eu gwaith, ac mae eu hagweddau at ddysgu yn hynod gadarnhaol. Mae bron pob disgybl yn mynd ati i

ymgymryd â'u gwaith yn gyflym ac yn bwrpasol, gan wybod ble i gael adnoddau i'w cynorthwyo yn eu dysgu. Maent yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd mewn gwersi ac yn cydweithio, gan ddangos parch at ei gilydd. Mae llawer o ddisgyblion yn awyddus i roi cynnig ar bethau newydd ac maent yn awyddus i ddysgu. Maent yn ymgysylltu'n hyderus â phrofiadau newydd ac yn dyfalbarhau i ddod o hyd i atebion. Mae eu gallu i ganolbwyntio am gyfnodau priodol yn dda. Maent yn ymgysylltu'n gyflym â thasgau ac yn eu cwblhau'n dda. Dangosir parch gan lawer o ddisgyblion at gyfraniadau disgyblion eraill, er enghraifft caniatáu i rai eraill ateb cwestiynau heb darfu arnynt.

Mae presenoldeb disgyblion wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg am y pedair blynedd diwethaf. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yn brydlon.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn dda. Darperir gweithgareddau ysgogol gan athrawon sy'n cipio diddordeb disgyblion. Er enghraifft, maent yn defnyddio cerdd gyffrous am siapiau i arwain at weithgaredd mathemategol. Mae dealltwriaeth dda gan bob un o'r staff am addysgeg y cyfnod sylfaen, a cheir cydbwysedd priodol rhwng tasgau wedi'u harwain gan oedolyn a thasgau wedi'u cychwyn gan y plentyn. Mae'r dysgu yn mynd rhagddo ar gyflymder addas ar gyfer y gweithgaredd bwriadedig, ac mae staff yn gwybod pa bryd i sefyll yn ôl a pha bryd i ymyrryd er mwyn ymestyn dysgu'r disgyblion.

Mae pob un o'r staff yn datblygu perthnasoedd gweithio cadarnhaol a chefnogol iawn gyda disgyblion, gan eu galluogi i gymryd risgiau yn eu dysgu a rhoi cynnig ar weithgareddau newydd yn hyderus. Maent yn rheoli ymddygiad disgyblion yn gyson ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Mae oedolion yn gwneud defnydd effeithiol o dechneg holi er mwyn ymestyn medrau meddwl disgyblion. Darparant heriau diddorol i ddisgyblion ddatrys problemau, fel gweithio allan sut i fesur maint coler sydd angen iddynt ei wneud ar gyfer anifeiliaid anwes gwahanol.

Mae athrawon yn siarad â disgyblion am eu gwaith er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn gwybod beth maent wedi'i wneud yn dda a sut gallant wella. Maent yn gosod targedau addas i ddisgyblion i weithio arnynt, ac yn rhoi cyfleoedd da iddynt wneud hyn. Er enghraifft, mae disgyblion yn ymarfer ysgrifennu rhifau yn gywir yn eu llyfrau targed.

Mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys, ac yn talu sylw priodol i holl feysydd dysgu'r cyfnod sylfaen. Mae athrawon yn rhoi ystyriaeth dda i farnau disgyblion wrth gynllunio themâu ac yn addasu'u cynlluniau yn dda i ddilyn diddordebau disgyblion. Er enghraifft, fe wnaeth testun am anifeiliaid nos droi'n astudiaeth o'r gofod ar ôl i'r disgyblion siarad am ddydd a nos, ac roeddent am edrych ar sêr a phlanedau. Mae'r ysgol ar lethr serth, ac oherwydd dyluniad ac oedran yr adeilad, nid oes mynediad uniongyrchol i le tu allan. Gwna oedolion ddefnydd addas o'r lle sydd ar gael a cheir cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddysgu yn yr awyr agored, fel pan fyddant yn defnyddio ardal yr ysgol goedwig i wneud angenfilod mwd.

Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd effeithiol iawn i ddisgyblion ddatblygu'u medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm. Ar ôl nodi nad oedd disgyblion yn ysgrifennu'n ddigon aml yn ystod gweithgareddau wedi'u cychwyn gan y plant, fe wnaethant ofyn

i'r disgyblion sut gallent wella'r ddarpariaeth er mwyn eu hannog i ysgrifennu. Roedd y disgyblion eisiau amgylchedd tawel lle na allai disgyblion eraill darfu arnynt. Penderfynodd un dosbarth y byddent yn hoffi cael tŷ ysgrifennu coedwig gyda gardd ar gyfer rhannu a gwrando ar storïau. Mae darparu'r mannau hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar faint ac ansawdd y gwaith ysgrifenedig a gynhyrchir gan ddisgyblion. Mae athrawon yn cynllunio'n dda ar gyfer datblygiad mathemategol, ond nid yw cyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm wedi'u datblygu cystal.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion yn dda. Mae oedolion yn defnyddio Cymraeg yn rheolaidd ar gyfer cyfarwyddiadau ac arferion yn yr ystafell ddosbarth. Ceir amserau wedi'u cynllunio i ddisgyblion ymarfer patrymau iaith, ac mae oedolion yn disgwyl iddynt ddefnyddio'r patrymau hyn yn ystod y dydd ar gyfer gweithgareddau penodol. Mae athrawon yn rhoi ystyriaeth dda i dreftadaeth a diwylliant Cymru wrth gynllunio'r cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion yn dysgu am waith amryw o artistiaid a cherddorion Cymru, ac yn ymweld â mannau o ddiddordeb yng Nghymru, fel Amgueddfa Werin Cymru a Chastell Caerdydd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd hynod ofalgar a cheir ymdeimlad pwrpasol o gymuned. Mae'r holl ddisgyblion yn cymryd rhan yn yr ystod lawn o weithgareddau ysgol.

Caiff disgyblion eu hannog i ddatblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu a gwydnwch. Ceir pwyslais cryf ar les. Er enghraifft, mae plant iau yn gweithio i lenwi'u 'bwcedi' yn llawn caredigrwydd, hapusrwydd a pharch, ac mae disgyblion iau yn cymryd rhan mewn ymarfer 'ymestyn at y sêr' wrth baratoi ar gyfer dysgu. Mae'r system gwobrau enfys yn annog plant hŷn i weithio gyda'i gilydd, i fod yn garedig ac yn barod i roi cymorth.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt yn gadarn, ac mae'r ysgol yn defnyddio ystod o raglenni a strategaethau effeithiol i fodloni'u hanghenion. Mae cynlluniau unigol yn olrhain cynnydd disgyblion ag anghenion ychwanegol yn dda mewn perthynas â thargedau a osodwyd. Mae athrawon yn defnyddio gwybodaeth asesu yn llwyddiannus i lywio cynlluniau, a chaiff hyn effaith arbennig o gadarnhaol ar y rhai y mae angen cymorth arnynt. Mae cynorthwywyr dysgu yn darparu ystod o ymyriadau lles a llythrennedd sy'n cefnogi dysgu disgyblion yn effeithiol. Mae'r ysgol yn cynnig cymorth a chyngor defnyddiol i rieni ynglŷn â'r ffordd orau i helpu dysgu a datblygiad eu plant. Er enghraifft, mae staff yn cyfarfod yn amlach â rhieni y mae eu plant yn ei chael hi'n anodd ymgartrefu yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn sefydlu perthnasoedd cynhyrchiol gyda rhieni, ac mae ganddi linellau cyfathrebu effeithiol â nhw. Mae staff yn rhoi gwybodaeth gyson i rieni am gynnydd eu plentyn drwy gyfarfodydd rhieni rheolaidd ac adroddiadau ysgol cynhwysfawr. Mae'r ysgol yn cynnal nifer o sesiynau rhieni er mwyn helpu rhieni i gefnogi'r dysgu. Er enghraifft, ceir gweithdai sy'n rhoi cyngor ynglŷn â darllen gartref, ffoneg a datblygu medrau rhif.

Ceir trefniadau priodol yn yr ysgol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae staff yn annog disgyblion i fwyta'n iach yn y clwb brecwast, i wneud smwddis ffrwythau a phicnics iach ac i ddod â phecynnau cinio iach. Mae gweithgareddau allgyrsiol yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion gyfranogi mewn sesiynau corfforol, fel clwb chwaraeon. Hefyd, ceir llawer o gyfleoedd buddiol ar gyfer ymweliadau ac ymwelwyr er mwyn gwella dealltwriaeth disgyblion o themâu a materion amgylcheddol, er enghraifft drwy ymweliadau â chanolfan amgylcheddol, becws, caffi lleol, gorsaf heddlu, llyfrgell a chanolfan ailgylchu.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio mewn sesiynau lle daw'r ysgol gyfan ynghyd yn seiliedig ar werthoedd yr ysgol, themâu ysbrydol, moesol a diwylliannol. Fodd bynnag, nid yw'r dull o gyflwyno'r sesiynau hyn yn ysgogol bob amser ac nid yw'n cipio diddordeb disgyblion, ac o ganlyniad, maent yn mynd yn aflonydd.

Ceir gweithdrefnau addas yn yr ysgol ar gyfer olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion. Mae'r broses o olrhain cynnydd o'r gwaelodlin hyd at ddiwedd y cyfnod sylfaen yn effeithiol ac yn cyfrannu at godi cyrhaeddiad bron pob disgybl. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd a thrafodaethau am gynnydd disgyblion yn sicrhau bod yr holl staff yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud i wella deilliannau ar gyfer disgyblion, yn enwedig y rhai y mae perygl iddynt dangyflawni.

Ceir trefniadau effeithiol i gynnal lefelau uchel o ran presenoldeb disgyblion. Mae'r ysgol yn gweithredu llyfr cyrraedd yn hwyr, system cyswllt cychwynnol ac mae ganddi gynllun gweithredu presenoldeb sy'n gwneud yn siŵr bod disgyblion a rhieni yn gwybod am bwysigrwydd mynychu'n rheolaidd. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth dros dro wedi cynnal arweinyddiaeth gref yr ysgol yn absenoldeb y pennaeth parhaol. Mae pob un o'r staff yn ei chynorthwyo'n fedrus er mwyn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn derbyn safonau gofal uchel. Gyda'i gilydd, mae cymuned yr ysgol gyfan yn gweithio fel tîm cryf er budd yr holl ddisgyblion. Gwnânt yn siŵr bod lles yn ganolog i gymuned yr ysgol. Mae rolau a chyfrifoldebau clir gan y staff ac maent yn deall eu rôl i sicrhau gwelliannau mewn safonau a lles disgyblion. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

Mae prosesau hunanarfarnu wedi'u datblygu'n dda, yn drwyadl ac yn ystyried ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol fel dadansoddi data, arsylwadau o wersi, teithiau dysgu, edrych ar waith disgyblion a gwrando ar rieni, staff a llywodraethwyr drwy holiaduron. Mae staff yn gwrando ar farnau disgyblion yn rheolaidd, yn cymryd eu barnau a'u syniadau o ddifrif ac yn eu hystyried yn drylwyr wrth wneud penderfyniadau ysgol gyfan ac arfarnu prosesau'r ysgol. Er enghraifft, roedd barnau disgyblion yn rhan annatod o'r broses o ddatblygu'r cytiau ysgrifennu llwyddiannus. Gwneir defnydd da o'r holl wybodaeth hunanarfarnu gan staff i nodi blaenoriaethau gwella'r ysgol gyfan, ac i adolygu cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hyn yn gyson. Ceir cyswllt agos rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau yn y cynllun datblygu. Mae'r cynllun yn nodi camau gweithredu perthnasol a mesuradwy ar gyfer gwella.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol i waith yr ysgol ac mae ganddo wybodaeth gadarn am ei chyd-destun, cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae llywodraethwyr yn herio'r ysgol ar faterion, fel y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ond mae hefyd yn deall goblygiadau carfanau bach o ddisgyblion. Maent yn cymryd diddordeb gweithgar yn eu meysydd cyfrifoldeb ac yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd, gan helpu lle bynnag y bo modd, er enghraifft gyda gweithgareddau coedwig awyr agored.

Mae'r pennaeth dros dro yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr i'r holl staff yn yr ysgol a thu hwnt. Mae pob un o'r staff wedi ymweld ag ysgolion lleol eraill i weld a rhannu arfer dda. Drwy wneud hynny, maent wedi elwa o gyfleoedd i rannu profiadau ac arfer dda er mwyn gwella darpariaeth a chodi safonau. Er enghraifft, mae athro wedi datblygu partneriaeth gyda chydweithiwr mewn ysgol arall i arfarnu gwaith ei gilydd ac i ymgymryd ag arsylwadau ar y cyd o addysgu ffoneg.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos ag ysgol babanod arall a'r ysgol iau y mae'r ddwy yn ei bwydo er mwyn sicrhau cysondeb mewn asesiadau athrawon. Maent hefyd wedi dechrau paratoi ar gyfer cau'r ysgolion a throsglwyddo disgyblion i'r ysgol newydd. Maent yn cyfranogi mewn ystod o weithgareddau, fel perfformio mewn cyngerdd ar y cyd a chynnal boreau coffi i rieni'r holl ysgolion sy'n gysylltiedig â'r uno arfaethedig. Mae athrawon wedi ymweld â'r ddwy ysgol i ddechrau gweithio'n agosach â staff eraill ac i gynorthwyo'r broses gau a throsglwyddo.

Mae rheoli perfformiad yn gadarn ac yn datblygu gwybodaeth, medrau ac arbenigedd staff. Mae'r pennaeth dros dro yn sicrhau bod dysgu proffesiynol athrawon a chynorthwywyr addysgu yn flaenoriaeth. O ganlyniad, mae athrawon yn wybodus iawn ynglŷn ag arferion a datblygiadau addysgu cyfredol. Mae cynorthwywyr addysgu yn teimlo bod parch mawr iddynt a'u bod yn rhan o'r tîm, ac maent yn cynorthwyo grwpiau disgyblion penodol yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn canolbwyntio'n briodol ar nifer o flaenoriaethau cenedlaethol, yn cynnwys datblygu llythrennedd, rhifedd a lleihau effaith niweidiol tlodi ar safonau a lles disgyblion. Gwneir defnydd effeithiol o'r grant datblygu disgyblion gan yr ysgol i sicrhau bod anghenion disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn cael eu bodloni'n effeithiol, fel prynu adnodd darllen a hyfforddi cynorthwywyr addysgu i'w weinyddu'n llwyddiannus.

Ceir trefniadau effeithiol i reoli cyllid ac adnoddau'r ysgol. Mae staff yn gweithio'n greadigol i wella darpariaeth drwy sicrhau nifer o grantiau ychwanegol, fel defnyddio cyllid y loteri i ddarparu ardal ddarllen ysgogol ac effeithiol yn yr awyr agored.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa farnau pedwar pwynt, sef:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arfer gadarn, gyson |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol, angen gwella** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol, angen gwella ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor,
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/01/2018